Croeso

Ni yw Nordic Signs.
Rydym yn helpu pobl Fyddar a phobl sy'n clywed i ddeall ei gilydd.

Rydym yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, Saesneg a Chymraeg.

Gallwn ddod atoch chi.
Neu gallwn ymuno â chi ar-lein.

Rydym wedi cofrestru ac wedi cael ein gwirio.

Rydym yn cadw'r hyn rydych yn ei ddweud wrthym yn breifat.

Beth rydym yn ei wneud

Dehongli iaith arwyddion

Mae dehonglydd yn trosi Saesneg llafar yn Iaith Arwyddion Prydain.

Siarad gwefusau

Mae siaradwr gwefusau yn ailadrodd yr hyn mae pobl yn ei ddweud, ond heb sain.

Ysgrifennu clir

Rydym yn ailysgrifennu llythyrau a ffurflenni mewn Saesneg syml neu Gymraeg syml.

Cyfieithu

Rydym yn trosi Saesneg neu Gymraeg ysgrifenedig yn Iaith Arwyddion Prydain ar fideo.

Isdeitlau

Rydym yn ychwanegu geiriau at fideos.

Cyngor

Ddim yn siŵr beth sydd ei angen arnoch? Gofynnwch i ni.

Ble rydym yn gweithio

Gwasanaethau cyfreithiol, yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol

Iechyd meddwl

Iechyd

Gwaith

Addysg

Digwyddiadau

Y celfyddydau

Gallwn weithio mewn mannau eraill hefyd.
Gofynnwch i ni.

Sut i archebu

I archebu, llenwch ein ffurflen.

nordicsigns.co.uk/cy/book

Dywedwch wrthym y dyddiad, yr amser a'r lle.

Byddwn yn anfon e-bost atoch.
Rydym yn ceisio ateb o fewn un diwrnod gwaith.

Gallwch hefyd anfon fideo atom.
Rydym yn deall laith Arwyddion Prydain ac laith Arwyddion Iwerddon.

Pwy sy'n talu?

Gan amlaf, nid yw'r person Byddar yn talu.
Ddim yn siŵr? Gofynnwch i ni.